Strategaeth a Datganiad Polisi ar gyfer Polisi Ynni Gwledydd Prydain

Ymateb i'r ymgynghoriad gan y Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), a Chyngor Mudiadau Gwirfoddol yr Alban (SCVO)

1) A yw'r strategaeth a'r datganiad polisi yn nodi'r blaenoriaethau strategol a'r canlyniadau polisi pwysicaf i'r llywodraeth wrth lunio polisi ar gyfer y sector ynni ym Mhrydain? Os na, rhowch fanylion y blaenoriaethau y credwch y dylid eu cynnwys.

Fel y cyrff aelodaeth ar gyfer elusennau a gwirfoddoli yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban, rydym yn croesawu cyflwyno datganiad strategaeth a pholisi ar gyfer polisi ynni ym Mhrydain. Mae'r sector gwirfoddol yn bartner hollbwysig yn yr ymgyrch o ran sicrhau ynni glân a sero net. Mae elusennau a mudiadau gwirfoddol yn hyrwyddo atebion arloesol i wella cynhyrchiant a diogelu ffynonellau ynni, amddiffyn yr amgylchedd, a hyrwyddo bioamrywiaeth; maent yn cefnogi cymunedau i gynhyrchu eu hynni eu hunain, lleihau eu defnydd o ynni, ac adfywio ecosystemau lleol; ac maent yn addasu eu gweithrediadau eu hunain yn gynyddol i leihau eu hôl troed carbon.

O safbwynt y sector gwirfoddol, gellid gwella'r datganiad er mwyn blaenoriaethu diogelu ffynonellau ynni, technoleg lân, a llesiant cymunedau yn glir. I'r perwyl hwn, rydym yn annog blaenoriaethu blaenoriaethau strategol a chanlyniadau polisi ym mhob adran, yn ogystal â rhai ychwanegiadau, fel y nodir yn ein hymateb isod.

Galluogi seilwaith sero net ac ynni glân:

Mae elusennau a mudiadau gwirfoddol yn wynebu sawl her fel defnyddwyr ynni. Maent yn aml wedi'u lleoli mewn hen adeiladau aneffeithlon a/neu adeiladau rhestredig na ellir gwella eu hadeiladwaith. Mae llawer o fudiadau'n rhentu eu hadeiladau, sy'n golygu nad oes ganddyn nhw berthynas uniongyrchol â'u cyflenwyr ynni ac yn methu â gwella adeiladwaith eu hadeiladau. Nid oes gan lawer ohonynt ddigon o ddata am eu defnydd o ynni, maent yn cael anhawster i gael hyn gan eu cyflenwyr, a/neu nid ydynt yn gwybod sut i'w ddehongli, sy'n cyfyngu ar eu gallu i leihau eu defnydd yn effeithiol.

O ran gwella effeithlonrwydd ynni a/neu gael mynediad at ynni glân, rydym wedi clywed gan fudiadau gwirfoddol bod 1) diffyg cyngor ac archwiliadau dibynadwy a diduedd a 2) diffyg cystadleuaeth (ac felly dewis ac argaeledd) yn y farchnad darparwyr yn rhwystrau sylweddol.

O ystyried bod prynu a gosod mesurau o'r fath fel arfer yn fuddsoddiad sylweddol, yn enwedig ar gyfer mudiadau llai, mae elusennau am sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau gorau posibl. Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud hynny pan fo'r rhai sy'n darparu cyngor hefyd fel arfer yn gwerthu cynnyrch neu wasanaeth, a phan fo dewis ac argaeledd y rhai sy'n gwerthu cynnyrch a gwasanaethau yn yr ardal leol yn gyfyngedig iawn. Mae angen archwiliadau cadarn a manwl ar fudiadau gwirfoddol, sy'n cynnwys dadansoddiadau cost, rhagamcanion costau yn y dyfodol, amserlenni ar gyfer enillion ar fuddsoddiadau, a gwir gost ariannol ac amgylcheddol gwneud dim byd. Mae modelu cost cadarn yn aml ar goll o archwiliadau, ac mae hynny'n arwain yn aml at ddiffyg gweithredu.

Dylai'r llywodraeth ychwanegu canlyniad polisi yn yr adran hon sy'n canolbwyntio ar feithrin y farchnad, gan gynnwys drwy addysg a hyfforddiant, i gynyddu'r cyflenwad o gyngor, nwyddau a gwasanaethau dibynadwy i fodloni (a chynyddu) y galw am fesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni glân

gan yr holl ddefnyddwyr (ond yn enwedig cartrefi, mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, a busnesau bach a chanolig).

Rhwystr sylweddol arall i osod mesurau effeithlonrwydd ynni yw bod llawer o fudiadau'r sector gwirfoddol yn gweithredu mewn adeiladau na ellir gwella eu hadeiladwaith am amrywiaeth o resymau. Er mwyn lleihau'r galw am ynni ymhlith y garfan hon rhaid ystyried yr angen i gynyddu argaeledd adeiladau sy'n fwy effeithlon o ran ynni. Dylai'r llywodraeth ychwanegu canlyniad polisi yn yr adran hon sy'n canolbwyntio ar gyd-ddibyniaeth lleihau'r galw am ynni â datblygu stoc adeiladau gwledydd Prydain.

Rydym hefyd yn cefnogi galwadau Community Energy England i gydnabod yn benodol a phwysleisio pwysigrwydd a gwerth cymdeithasol ychwanegol ynni cymunedol a sefydlu 'dyletswydd i gefnogi gweithredu hinsawdd lleol' yn y llywodraeth (https://communityenergyengland.org/pages/what-policies-are-cee-asking-for). Dylai'r llywodraeth ychwanegu blaenoriaeth strategol yn yr adran hon sy'n canolbwyntio ar gefnogi twf hirdymor ynni cymunedol.

O ran blaenoriaethu yn yr adran hon, dylai diogelu pob defnyddiwr fod yn flaenoriaeth uwch na marchnadoedd effeithiol. Yn aml ni fydd mecanweithiau'r farchnad yn gwasanaethu cwsmeriaid y sector gwirfoddol a defnyddwyr eu gwasanaethau yn dda, gan nad oes gan y carfannau hyn yn aml bŵer economaidd i ddylanwadu ar farchnadoedd (er enghraifft, oherwydd eu bod wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig). Dylai cynllunio gwasanaethau'n effeithiol, yn enwedig o ran seilwaith, hefyd fod yn flaenoriaeth uchel wrth ddarparu'r system yn ogystal â rheoleiddio'r system. Dylid rhoi blaenoriaeth i 'ddewisiadau amgen sy'n gydnaws â sero net' nad ydynt yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr dros dechnolegau sy'n cydbwyso rhyddhau a dal nwyon tŷ gwydr, a dylai'r derminoleg a ddefnyddir yn y blaenoriaethau (er enghraifft 'sero net', 'glân') fod yn gyson ac wedi'u diffinio.

Diogelu ffynonellau ynni a diogelu defnyddwyr:

Er bod elusennau a mudiadau gwirfoddol wedi'u cynnwys yn y categori 'defnyddwyr annomestig', ar hyn o bryd does dim digon o amddiffyniadau ar gyfer y mathau hyn o fudiadau. O ran costau ynni, mae elusennau a mudiadau gwirfoddol yn wynebu tair her sy'n gorgyffwrdd a all ei gwneud yn anos rheoli costau ynni cynyddol.

- Mewn llawer o achosion, mae gofyn iddynt ddefnyddio ynni i gyflawni eu gwaith (er enghraifft canolfannau hamdden, cartrefi gofal, hosbisau), a/neu mae ganddynt ddefnydd uchel o ynni ac ni allant leihau hyn heb beryglu llesiant y bobl maent yn eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, canolfannau clyd, llyfrgelloedd, gwasanaethau i bobl feichiog, gwasanaethau gofal plant a ieuenctid, a gwasanaethau i bobl â phwysau corff isel oherwydd dibyniaeth neu anhwylderau bwyta er enghraifft. Mae'r mudiadau hyn yn torri ar draws is-sectorau ac yn amrywio o ran maint.
- Fel arfer ni allant drosglwyddo costau i'w defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, os ydynt yn darparu gwasanaethau sydd angen iddynt fod am ddim yn y man y'u darperir; os ydynt yn gwasanaethu grwpiau incwm isel neu grwpiau heb incwm; a/neu os ydynt yn gwasanaethu pobl mae chwyddiant uchel yn effeithio fwyaf arnyn nhw (er enghraifft, pobl anabl a phobl hŷn). Mae'n bosibl eu bod hefyd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gontractau nad ydynt yn cyd-fynd â chwyddiant, ond nad ydynt yn caniatáu iddynt gyflwyno na chynyddu taliadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Yn amlach na pheidio, allan nhw ddim amsugno costau uwch. Dim ond hyn a hyn y gall codi arian (yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig neu incwm isel) ei wneud; efallai eu bod

eisoes yn rhoi cymhorthdal i gontractau gwasanaethau cyhoeddus ag incwm elusennol; efallai eu bod yn cael trafferth talu costau cynyddol eraill, fel cyflogau; ac efallai fod eu cronfeydd wrth gefn yn isel. Yn benodol, mae mudiadau a gaiff eu harwain gan grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio yn llai tebygol o fod â gwytnwch ariannol ac yn aml wedi'u tanariannu (er enghraifft, mudiadau a gaiff eu harwain gan bobl Ddu a phobl Fyddar ac Anabl).

Dylai'r llywodraeth felly ystyried mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer mudiadau nid er elw sy'n cefnogi pobl â nodweddion agored i niwed a/neu sy'n llai abl i gymryd camau i liniaru effaith costau ynni uchel a/neu ddefnydd uchel. Dylai hyn fod yn ychwanegol at yr amddiffyniadau sydd ar gael i ficrofusnesau, y bydd rhai ohonynt yn fudiadau gwirfoddol.

Byddai canolbwyntio ar liniaru'r pwysau unigryw sy'n wynebu'r mathau hyn o fudiadau gwirfoddol nid er elw yn cydnabod eu rôl hollbwysig wrth gefnogi defnyddwyr y mae Ofgem yn eu hystyried yn agored i niwed. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad ydym yn colli mudiadau a gwasanaethau gwirfoddol lleol a chenedlaethol hanfodol oherwydd costau ynni uwch nag erioed.

Mae llawer o elusennau a mudiadau gwirfoddol yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys, er enghraifft, mewn neuaddau pentref. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd buddiannau cwsmeriaid nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid nwy yn cael eu diogelu gan y datganiad hwn. Yn groes i'r honiad ar dudalen 23 o'r datganiad, nid cystadleuaeth yw'r sicrwydd gorau o ddiogelu defnyddwyr pan nad oes gan ddefnyddwyr bŵer economaidd cyfunol, er enghraifft oherwydd eu bod yn wasgaredig yn ddaearyddol. Dylai'r llywodraeth ychwanegu canlyniad polisi yn yr adran hon sy'n canolbwyntio ar well amddiffyniad i ddefnyddwyr y mae diffyg pŵer economaidd cyfunol yn golygu bod eu hanghenion yn cael eu dad-flaenoriaethu ac nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda gan farchnadoedd cystadleuol.

2) A yw'r strategaeth a'r datganiad polisi yn nodi'n effeithiol rôl Ofgem wrth gefnogi'r llywodraeth i gyflawni ei blaenoriaethau? Os na, nodwch lle y gellid gwneud y disgwyliadau hyn yn gliriach.

Rydym yn croesawu bod y datganiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Ofgem 'roi sylw i fuddiannau unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n anabl neu sydd â salwch cronig, o oedran pensiwn, ar incwm isel, neu'n byw mewn ardaloedd gwledig.' Mae'n hanfodol cydnabod y bydd pobl mewn llawer o sefyllfaoedd gwahanol yn profi mwy o anfantais neu'n llai abl i amddiffyn eu buddiannau eu hunain yn y farchnad ynni.

Fodd bynnag, dylid cryfhau'r gofyniad hwn i'w gwneud yn ofynnol i Ofgem gymryd camau rhagweithiol i amddiffyn y grwpiau hyn o gwsmeriaid. Yn benodol, dylai fod yn ofynnol i Ofgem atal bregusrwydd ac anfantais sy'n deillio o weithrediad marchnadoedd ynni. Gellid cyflwyno tryloywder ac atebolrwydd drwy ei gwneud yn ofynnol i Ofgem nodi sut mae'n bwriadu gwneud hyn mewn gohebiaeth gyhoeddus reolaidd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net.

Rydym hefyd yn argymell bod y strategaeth a'r datganiad polisi hwn yn defnyddio'r un diffiniad am unigolion agored i niwed â Strategaeth Defnyddwyr Agored i Niwed 2025 Ofgem, sy'n cydnabod bod bregusrwydd yn gymhleth, yn gyfnewidiol, ac yn aml yn ddibynnol ar gyd-destun.

Bydd y grwpiau sy'n debygol o fod yn agored i niwed wedi ehangu oherwydd yr argyfwng costau byw a'i effaith ar unigolion a'r mudiadau sy'n eu cefnogi. Er enghraifft, profodd pobl ifanc gynnydd sylweddol mewn arwahanrwydd cymdeithasol yn ystod pandemig Covid-19, ac mae llawer ohonynt bellach yn gweld canolfannau hamdden lleol, pyllau nofio, clybiau chwaraeon, a chyfleusterau cymunedol eraill sy'n darparu seilwaith cymdeithasol hanfodol yn cau neu'n lleihau eu

gwasanaethau oherwydd costau ynni cynyddol. Mae arolygon diweddar yng Nghymru (https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2023/05/Pulse-May-2023-Wales.pdf), yr Alban (https://scvo.scot/policy/research/scottish- third-sector-tracker), a Lloegr (https://www.probonoeconomics.com/shifting-out-of-reverse) i gyd yn cyfeirio at effaith chwyddiant uchel ar fudiadau cymunedol a, thrwy hynny, y bobl maent yn eu cefnogi.

Argymhellwn felly fod y strategaeth a'r datganiad polisi hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofgem ystyried buddiannau mudiadau sy'n darparu cymorth i bobl sy'n agored i niwed, a/neu sydd â nodweddion o fregusrwydd pan ddaw hi at gostau ynni uchel (fel y disgrifir yn ein hymateb i gwestiwn 1 ac yn Strategaeth Defnyddwyr Agored i Niwed Ofgem 2025).